Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru

Rhaglenni'r cronfeydd strwythurol Ewropeaidd 2014-2020

## Arweiniad i'r Arfer Gorau

# Paratoi i Derfynu Prosiect

Fersiwn: 4

Dyddiad: Hydref 2022

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Paratoi i Derfynu Prosiect: Arweiniad i'r Arfer Gorau**

## 1. Cyflwyniad

Arweiniad yw hwn i awgrymu pa bethau y dylid eu hystyried wrth derfynu prosiect a pha arferion gorau y dylech eu cadw mewn cof pan fyddwch yn terfynu eich prosiect.

Mae'n rhaid terfynu'r prosiect mewn cydweithrediad â'ch Swyddog Datblygu Prosiectau yn WEFO, a fydd yn eich cynghori ynghylch y gofynion craidd ar gyfer terfynu eich prosiect. Mae rhagor o wybodaeth a chanllawiau i'w cael ar wefan WEFO a gallwch gael cymorth hefyd gan Swyddogion Tîm Ymgysylltu Lleol Ewropeaidd WEFO.

## 2. Cylch Oes y Prosiect – Terfynu

Mae terfynu prosiect yn un o'r camau allweddol yng nghylch oes prosiect ac mae angen ei ystyried a chynllunio ar ei gyfer yn ofalus.

Mae'n bwysig iawn dechrau ar y broses derfynu mewn da bryd. Bydd rheolwyr prosiectau a phartneriaid eraill wedi bod yn rheoli risgiau'r prosiect trwy gydol y cyfnod. Un risg mawr tua diwedd oes y prosiect yw methu â defnyddio'r strategaeth ymadael ar gyfer prosiectau a'i rhoi ar waith yn gywir. Gallai hyn arwain at broses derfynu prosiect sy'n mynd ymlaen yn rhy hir. Gallai hynny ddigwydd, er enghraifft, am fod gwybodaeth annigonol yn cael ei darparu gan gyd-noddwyr y prosiect neu'r cyflenwyr / contractwyr; oherwydd nad yw'r gwaith cyflenwi'n dod i ben ar yr adeg iawn; yn sgil methiant i gyflwyno'r hawliad ariannol terfynol yn unol â'r amserlen sy'n ofynnol; am na chaniatawyd digon o amser i wneud y gwerthusiad terfynol, ac yn y blaen.

Dylai'r holl waith cyflenwi fod wedi dod i ben cyn dyddiad diwedd y prosiect a dylai cynlluniau ar gyfer y gwaith fod wedi'u cynnwys yn y strategaeth ymadael, yn ogystal hefyd â chasglu'r data (ariannol a dangosol) ar gyfer yr hawliad terfynol. Bydd y gwaith o derfynu contractau staff neu ymadawiad staff o bob rhan o'r prosiect wedi dechrau wrth i ddyddiad diwedd y prosiect agosáu ac yn wyneb hynny mae'n hollbwysig cadw staff allweddol fel y gallant wneud y tasgau angenrheidiol i derfynu'r prosiect a rhyw gymaint o waith y bydd ei angen i derfynu'r prosiect wedi i'r dyddiad terfynu fynd heibio. Er enghraifft, bydd angen i staff fod ar gael i gyflwyno'r hawliad terfynol os bydd hynny'n digwydd ar ôl yr union ddyddiad pan ddaw'r prosiect i ben. Mae'n rhaid cyflwyno Adroddiad Archwilio/Cyfrifydd Terfynol (a gwblhawyd yn unol â Chyfarwyddiadau WEFO ar gyfer Cyfrifyddion Adrodd) cyn pen 6 wythnos mis wedi'r Dyddiad Cwblhau Ariannol. Gan hynny mae'n hanfodol bod Noddwr y Prosiect yn gwneud trefniadau buan i Gyfrifyddion Adrodd ymweld â'r Prosiect neu ei archwilio fel y gellir cydymffurfio â'r gofynion hyn.

Ffactor arall bwysig i'w hystyried wrth agosáu at adeg terfynu prosiect yw y gall pob prosiect a ariennir drwy Gronfeydd Strwythurol yr UE gael ei ddewis ar gyfer ymweliad archwilio gan y Comisiwn Ewropeaidd yn y dyfodol neu ymweliad gan Dîm Archwilio Cyllid Ewropeaidd Llywodraeth Cymru. Bydd eich prosiect wedi cael llawer archwiliad yn barod a dylech fod â pheth profiad o'r broses – cofiwch gadw hyn mewn cof pan fyddwch yn terfynu'r prosiect.

**Strategaeth Ymadael**

Dylech roi ar waith y strategaeth ymadael a ddatblygwyd yn y Cynllun Busnes ac mewn unrhyw drafodaethau a gafwyd ar ôl hynny â WEFO ac â'ch cyd-noddwyr / cyflenwyr ac yn y blaen. Dylid sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i gynllunio sut i derfynu'r prosiect yn drefnus a rhoi'r camau hynny ar waith. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod staff y prosiect yn cael eu paratoi a bod sefydliadau eraill a'r rhai sy'n derbyn grantiau yn y cyfnod olaf yn ymwybodol o'r amserlen ar gyfer terfynu'r prosiect ac, os yw'r gwaith yn cael ei drosglwyddo i rywun arall, sut y bydd hyn yn digwydd. Efallai y bydd angen rhoi gwybod hefyd i gyfranogwyr y prosiect, yn enwedig y rhai sydd â rhan yn y gweithgareddau olaf, ynglŷn â therfynu'r prosiect.

Dyma rai o'r cwestiynau y mae angen i chi eu hystyried.

- Pwy fydd yn gyfrifol am ymdrin â'r gwaith terfynu prosiect?
- Faint o rybudd sydd angen ei roi am derfynu'r prosiect ac i bwy?
- Os oes angen cyfleu gwybodaeth am y prosiect a'i weithgareddau h.y. ymholiadau a wneir gan WEFO fel rhan o'r broses derfynu, pwy fydd yn gyfrifol a sut y bydd yn digwydd?
- A yw'r holl gyfrifoldebau mewn perthynas â chyflogeion wrth i'r prosiect ddod i ben wedi cael eu hadnabod ac a wnaed cynlluniau i gyflawni'r hyn sy'n angenrheidiol?
- Pa asedau y bydd angen i'ch sefydliad chi eu cadw a ble mae'r asedau hynny?
- A gymerwyd camau i wybod a oes unrhyw asedau i'w trosglwyddo ac i gael caniatâd ar gyfer hynny?
- Pwy/pa sefydliadau fydd yn gyfrifol am gadw holl gofnodion y prosiect wedi iddo ddod i ben?
- Pwy yn eich sefydliad chi sydd angen mynediad i WEFO Ar-lein at ddibenion y broses derfynu?
- Pwy yn eich sefydliad chi fydd yn monitro'r modd y caiff refeniw ei sicrhau, y cymorth gwladwriaethol os yw hynny'n berthnasol a sut y bydd y cyflawniadau yn parhau yn y blynyddoedd ar ôl cwblhau'r prosiect?

## 3. Cydymffurfio ag Amodau'r Grant

**Amodau Safonol**

Byddwch wedi cymryd camau i sicrhau y cydymffurfir ag amodau'r grant a nodwyd yn y Llythyr Cynnig Grant (ac unrhyw lythyrau Amrywio Grant a oedd yn newid y cynnig) trwy gydol cyfnod y prosiect gan mai dyma'r cytundeb contractiol rhwng y Noddwr Arweiniol a WEFO. Wrth agosáu at ddyddiad cau a therfynu'r prosiect, dylech wirio unwaith yn rhagor fod yr holl dystiolaeth a'r gweithredoedd perthnasol wedi cael eu hadnabod ac y gofalwyd amdanynt neu eu bod wrthi'n cael eu gwneud er mwyn i chi gydymffurfio. Os methir â chydymffurfio â'r holl amodau yn y Llythyr Cynnig Grant - y "Cytundeb" - gall olygu y gwrthodir talu canran o'r grant pan fydd y prosiect yn terfynu neu hyd yn oed gymryd grant yn ôl oddi ar y noddwr arweiniol.

Byddwch wedi sicrhau hefyd fod y gwariant a'r gweithgareddau i gyd yn gymwys. Mae'n ddoeth edrych drachefn pan fydd y prosiect yn terfynu ar Reolau Gwladol Cymru ar Gymhwyster Gwariant a'r canllawiau eraill a gyhoeddwyd ar wefan WEFO ynglŷn â monitro prosiectau a materion ariannol, rhag ofn bod unrhyw anghysondeb yn bod. Os gwelir rhywbeth, dylech siarad â'ch Swyddog Datblygu Prosiectau oherwydd gall hyn effeithio ar eich hawliad terfynol a'ch adroddiadau ar y canlyniadau dangosol.

### Amodau Arbennig

Mae angen i bob prosiect sicrhau y cydymffurfiwyd ag unrhyw amodau grant arbennig a gynhwyswyd yn y Llythyr Cynnig Grant, bod WEFO wedi llofnodi i gadarnhau hynny a bod y dystiolaeth berthnasol yn cael ei chadw fel rhan o gofnodion y prosiect.

## 4. Agweddau Technegol ar Derfynu Prosiect

### Archif Prosiect

Dylech ystyried creu archif ar gyfer eich prosiect. Dylai'r archif gynnwys gwybodaeth am ble mae'r cofnodion a'r dogfennau allweddol ar gyfer gwaith eich prosiect yn cael eu cadw. Os cedwir cofnodion mewn gwahanol gyfryngau ac mewn lleoliadau eraill, dylai'r archif nodi sut mae cael gafael ar y rhain a ble mae'r cofnodion ar gael i'w harchwilio yn y dyfodol. Dylai archif y prosiect gynnwys eich Cynllun Busnes a'r dystiolaeth a gyflwynwyd i WEFO i gefnogi eich Cynllun Busnes, y Llythyr Cynnig Grant ac unrhyw amrywiadau, ynghyd ag unrhyw lythyrau yn nodi penderfyniadau WEFO, yn arbennig felly benderfyniadau yn sgil ymholiadau ynghylch cymhwyster.

Dylai gynnwys tystysgrifau cwblhau h.y. tystysgrifau cwblhau adeiladu, Asesiadau BREEAM; cofnodion buddiolwyr, cofnodion caffael, cofnodion ariannol, amserlenni ac yn y blaen.

Dylai'r archif gynnwys cofrestr asedau / stocrestr yn nodi manylion am yr asedau a brynwyd a'u lleoliad ar gyfer archwiliadau ac ymweliadau monitro yn y dyfodol. Bydd angen copi o'r rhestr hon fel rhan o'r broses terfynu prosiect. Dylai rheolwyr prosiect wneud yn siŵr bod y gofrestr asedau yn gyfredol a'i bod yn cynnwys pob eitem â chost cychwynnol / gwerth dros £5,000 o leiaf.

Rhaid i'r stocrestr / cofrestr gynnwys holl asedau'r prosiect, hyd yn oed y rhai sydd wedi'u lleoli o fewn / caffael gan sefydliad partner.

"Dylai sefydliadau sydd â pholisi o gofnodi eitemau o werth is yn eu cofrestr asedau ddilyn eu trothwy eu hunain."

## Stocrestr Asedau

Mae Noddwr y Prosiect yn gyfrifol am sefydlu a chynnal stocrestr o'r holl Asedau gwerth dros £5000, boed yn eiddo i Noddwr y Prosiect neu drydydd parti.

Dylai'r stocrestr ddangos:

- dyddiad prynu'r Ased;
- disgrifiad o'r Ased;
- pris a dalwyd heb gyfrif y TAW y gellir ei adennill;
- swm y Grant a dalwyd;
- lleoliad y gweithredoedd eiddo;
- rhifau cyfres neu adnabod;
- lleoliad yr Ased;
- dyddiad gwaredu;
- elw gwerthiant heb gyfrif TAW.

## Rheoli a chadw dogfennau

Mae noddwyr prosiectau yn gyfrifol am gadw cofnodion digonol (technoleg gwybodaeth, papur, cyfryngau eraill ar gyfer cofnodi) er mwyn bod â chofnod llawn o'r prosiect, gan gynnwys cofnodion ariannol ac archwilio. Maent yn gyfrifol hefyd am sicrhau bod y rhain ar gael i WEFO ac i'r archwilwyr yn unol â'r gofynion. Oni fydd dogfennau ar gael i brofi beth a wnaed â Chronfeydd Strwythurol, bydd grantiau'n cael eu cymryd yn ôl. Mae hyn yn golygu cadw'r dogfennau **o leiaf tan 2027 ond mae'n rhaid i noddwr y prosiect gadw'r holl ddogfennau nes i WEFO roi ar ddeall nad oes angen eu cadw mwyach.**

## Polisi Rheoli Cofnodion a Chanllawiau WEFO

Mae'n rhaid i'ch prosiect fod â pholisi rheoli dogfennau. Dylai'r polisi gynnwys cyfarwyddiadau ar gyfer eu cadw a nodi tan ba ddyddiad y mae'n rhaid eu cadw a dylid cynnwys manylion am unrhyw brotocolau ar gyfer rheoli data sensitif. Dylid cynnwys manylion hefyd am leoliad dogfennau, yn enwedig os yw noddwr arweiniol y prosiect yn cydweithio â chyd-noddwyr a/neu os yw prosiect wedi prynu gwasanaethau i mewn a bod rhywun heblaw'r noddwr arweiniol yn cadw'r cofnodion. Os yw cofnodion yn cael eu cadw'n electronig, dylent fod ar gael ar ffurf gwbl adferadwy am y cyfnod y mae ein canllawiau yn dweud y dylid eu cadw. Dylai'r cofnodion hyn hefyd fod yn rhan o archif y prosiect.

Mae'n bwysig cofio mai'r Noddwr Arweiniol sy'n gyfrifol am gadw holl gofnodion y prosiect ac felly dylai'r polisi gynnwys manylion hefyd am y systemau a sefydlwyd er mwyn cael gafael ar y cofnodion/dogfennau hynny gan gontractwr sydd yn drydydd parti mewn amgylchiadau lle na allant gadw'r cofnodion/dogfennau. Os na all y noddwr arweiniol gael sicrwydd o hyn gan bartïon eraill, mae'n rhaid i noddwr y prosiect adalw'r holl gofnodion er mwyn eu cadw ac at ddibenion archwilio. Mae hyn yn dal i fod yn berthnasol wedi i'r prosiect derfynu, tan ddiwedd y cyfnod cadw ar gyfer Rhaglenni 2014-2020.

## Cofnodion rheoli prosiect

Dylid cynnal adolygiad terfynol o'ch cofnodion rheoli prosiect a dylai'r rhain fod yn rhan o archif eich prosiect. Yn ogystal â chynnwys tystiolaeth i ddangos sut y cafodd y prosiect ei reoli (cofnodion cyfarfodydd, gwybodaeth am lywodraethu'r prosiect) dylai'r archif gynnwys y cofnodion ariannol megis yr anfonebau gwreiddiol a chofnodion ariannol electronig fel tystiolaeth o'ch gweithgareddau a'ch gwariant.

Dylai'r archif gynnwys tystiolaeth hefyd o'r modd y cafodd y prosiect ei fonitro, hynny yw pethau fel archif:

- trywyddau archwilio llawn o'r union gostau
- arian cyfatebol
- cyfraniadau cyfatebol mewn nwyddau
- recriwtio staff a swydd-ddisgrifiadau;
- penodiadau eraill;
- amserlenni gwaith a thystiolaeth o'r cyfraddau tâl a ddefnyddiwyd (naill ai copi o gyfraddau WEFO neu, os defnyddiwyd cyfraddau eraill y cytunwyd arnynt, dylid cefnogi'r rhain drwy gynnwys y cydsyniad a gafwyd gan WEFO i'w defnyddio a thaliad BACS y cyflogwr a chyfriflen banc yn dystiolaeth o'r trafodiad hwn).
- Dylid cadw copi hefyd o unrhyw fethodoleg dosrannu ar gyfer cyfraddau gorbenion a chydsyniad WEFO i'r cyfraddau hyn gael eu defnyddio.

## Cymorth Gwladwriaethol

Mae angen hefyd i noddwyr y prosiect ystyried unrhyw ofynion ychwanegol (gan gynnwys cyfnodau estynedig ar gyfer cadw dogfennau) a all fod yn ofynnol ar gyfer prosiectau lle ceir cymorth gwladwriaethol. Bydd gofyn nid yn unig i chi gadw cofnodion am y cyfnod sy'n ofynnol o dan y rhaglen ond, gan fod y cyfnod ar gyfer cadw cofnodion lle cafwyd cymorth gwladwriaethol fel rheol yn **10 mlynedd** o'r dyddiad pan roddwyd y cymorth unigol olaf, gallai'r cyfnod mewn achos o'r fath fod yn **hwy** na'r un sy'n berthnasol fel rheol i brosiectau (tair blynedd ar ôl i'r Rhaglen Weithredol gau yn ffurfiol) ac felly mae'n rhaid i gofnodion ynghylch y cymorth gael eu cadw nes i'r cyfnod cadw cofnodion ar gyfer cymorth gwladwriaethol ddod i ben.

## Caffael

Dylech sicrhau bod eich holl gontractau wedi cael eu cwblhau a'u hychwanegu at y dudalen berthnasol ar Wasanaeth Ar-lein WEFO gan nodi eu bod yn awr wedi cau. Dylai noddwyr y prosiect sicrhau bod yr holl gofnodion sydd a wnelo â chaffael ar gael am y cyfnod cadw a nodwyd gan WEFO a, lle bo trydydd parti'n cadw cofnodion (gwasanaeth a gontractiwyd) dylai'r Noddwr Arweiniol fodloni'i hun y bydd y cofnodion hynny ar gael fel y gall archwilwyr graffu arnynt, am yr un cyfnod. Dylai hyn gynnwys cofnodion am y gweithgareddau a'r gwaith monitro.

**Cyhoeddusrwydd/marchnata**

Bydd angen i chi sicrhau y cydymffurfir â gofynion cyhoeddusrwydd yr Undeb Ewropeaidd (Canllawiau Gwybodaeth a Chyhoeddusrwydd 2014-2020) trwy gadw tystiolaeth o'r cyhoeddusrwydd a roddwyd i'ch prosiect. Ar gyfer prosiectau Cronfa Gymdeithasol Ewrop ac ERDF, bydd yn ofynnol i chi ddarparu tystiolaeth i brofi eich bod wedi cydymffurfio trwy osod llechen yn nerbynfa'r adeilad neu mewn lle amlwg sy'n berthnasol i weithgaredd y prosiect.

Ar gyfer prosiectau cyfalaf/seilwaith, fel adeiladu ffordd, adeilad neu adfywio ffisegol, mae angen tystiolaeth ar ffurf ffotograffau yn archif eich prosiect, i ddangos unrhyw arwyddion/hysbysfyrddau a osodwyd yn ystod y gwaith.

Dylid cynnwys tystiolaeth yn eich archif hefyd ynglŷn â chyhoeddusrwydd arall a roddwyd i brosiect ac unwaith eto fe ddylai ddangos logo'r Gronfa Gymdeithasol/ERDF. Er enghraifft, dylai fod ar ddatganiadau i'r wasg, gwefannau/cynnwys digidol a chopïau o gyhoeddiadau marchnata (taflenni, cylchlythyrau, deunydd hyrwyddo, adroddiadau rhanddeiliaid ar gyfer unrhyw gynulleidfa heblaw WEFO, ac ati.

Efallai weithiau y gallai eich prosiect chi gael ei ddefnyddio fel enghraifft o arfer da neu'r arfer gorau ar gyfer ymweliadau gan Weinidogion Cymru, y Comisiwn Ewropeaidd neu aelod wladwriaethau eraill. Os dewisir eich prosiect, bydd WEFO yn hysbysu eich sefydliad fel y gellir paratoi ar gyfer yr ymweliadau hyn.

Mae'n debygol y bydd eich prosiect yn cynnal digwyddiadau i ddathlu'r hyn a gyflawnwyd, i rannu adroddiadau, hysbysebu'r gwefannau ac ati yn ystod y misoedd olaf a bydd o gymorth os gallwch gysylltu ag Uned Gyfathrebu WEFO er mwyn rhoi gwybod iddynt am unrhyw ddigwyddiadau mawr neu bwysig.

## 5. Terfynu ariannol

### Hawliad ac Archwiliad Terfynol

Bydd WEFO yn cadw 10% o Grant y Cronfeydd Strwythurol (oni nodir yn wahanol yn y Proffil Cyflenwi) nes i'r prosiect gael ei gwblhau yn foddhaol yng ngolwg WEFO ac i WEFO dderbyn ffurflen hawliad terfynol sydd yn foddhaol. Lle bo prosiect yn tanwario, bydd y grant

yn cael ei leihau yn unol â hynny a chedwir 10% yn ôl ar sail swm y grant a ail-gyfrifwyd.

Wrth gwblhau'r hawliad terfynol, dylid addasu'r golofn 'cyfanswm a ragwelir' yn yr hawliad, os bydd angen, er mwyn sicrhau ei bod yn cyfateb i'r holl ffigurau terfynol a ddatganwyd ar gyfer gwariant, incwm a dangosyddion.

Os oes unrhyw dangyflawni ar ddangosyddion prosiect, mae'n rhaid rhoi sylw i'r rhain a chynnig eglurhad perthnasol y cytunir arno gyda'ch Swyddog Datblygu Prosiectau.

**Mae'n rhaid cyflwyno hawliad terfynol ac adroddiad archwilio/cyfrifydd (a gwblhawyd yn unol â Chyfarwyddiadau WEFO ar gyfer Cyfrifyddion Adrodd) cyn pen chewch wythnos wedi'r dyddiad y cytunwyd arno ar gyfer cwblhau materion ariannol.** Ar ôl derbyn yr adroddiad hwn, bydd WEFO yn ystyried pob amod ac argymhelliad ac mae'n bosibl y gwneir addasiadau pellach i'r ffigurau yn yr hawliad terfynol.

**Yr unig wariant y gellir ei hawlio yw'r gwariant a wnaed ac a dalwyd.** Diffinnir "talwyd" fel siec a ariannwyd neu drafodiad talu sydd wedi cael ei glirio o gyfrif banc y sefydliad.

**Nid yw gwariant sy'n digwydd ar ôl y dyddiad a gymeradwywyd ar gyfer cwblhau yn gymwys.**

Fodd bynnag, yr unig eithriad i hyn yw'r ffi am yr adroddiad archwilio/cyfrifydd terfynol. Ni ellir hawlio'r ffioedd hyn oni ellir profi eu bod wedi'u talu o fewn y cyfnod o chwech wythnos a ganiateir ar gyfer cyflwyno'r adroddiad archwilio/cyfrifydd terfynol. Er mwyn darparu'r dystiolaeth hon, gall y prosiect naill ai gyflwyno copïau o'r anfoneb a'r gyfriflen banc berthnasol neu ddarparu llythyr gan y cyfrifydd adrodd yn cadarnhau'r taliad ac yn nodi ar ba ddyddiad y cliriwyd y taliad yn ei gyfrif banc.

**Sylwer os gwelwch yn dda fod yn rhaid gwneud a thalu pob gwariant cyn diwedd cyfnod y rhaglen (h.y. erbyn 31 Rhagfyr 2023).**

Dyma'r rheolau sy'n berthnasol i gyfrifo sut i dalu hawliadau terfynol:

- Telir pob hawliad terfynol ar sail "angen", sydd yn golygu y bydd cyfanswm y grant sy'n daladwy yn cael ei leihau os bydd unrhyw newid yn y pecyn ariannu cyfan sydd yn golygu lleihad yn yr angen am grant.
- Bydd cyfanswm y grant sy'n daladwy yn cael ei *leihau* er mwyn adlewyrchu unrhyw danwariant mewn perthynas â'r prosiect.
- Os bydd yr incwm yn annigonol, bydd angen i Noddwr y Prosiect ddarparu arian ychwanegol gan ddefnyddio ei adnoddau ei hun.
- Mae'n rhaid darparu / cadarnhau'r holl fanylion am yr incwm cyn y bydd yr hawliad grant terfynol yn cael ei dalu.

- Uchafswm y grant a fydd yn daladwy yw cyfanswm y grant Cyfalaf a / neu Refeniw y cytunwyd arno yn y Proffil Cyflenwi diweddaraf, hyd yn oed os bu cynnydd yng nghyfanswm y Costau Cymwys (Cyfalaf a / neu Refeniw).

### Adroddiad cynnydd yr hawliad terfynol am daliad

Dylai'r adroddiad cynnydd a gyflwynir gyda'r hawliad terfynol am daliad ddarparu manylion am gynnydd y prosiect a'r hyn a gyflawnwyd hyd yma ar gyfer chwarter terfynol y prosiect. Dylai noddwyr sicrhau eu bod yn ymateb ac yn rhoi sylw yn yr adroddiad cynnydd terfynol hwn i'r holl weithredoedd sy'n dal i sefyll ac a godwyd gan WEFO.

## 6. Monitro a Gwerthuso'r Prosiect

### Dangosyddion Prosiect

Mae'n rhaid i noddwyr prosiectau sicrhau hefyd wrth adrodd ar eu canlyniadau terfynol yn erbyn y dangosyddion a ddewiswyd ar gyfer y prosiect fod y rhain yn fanwl gywir gyda thystiolaeth briodol i'w cefnogi. Rhaid iddynt fod wedi bodloni'r Diffiniadau Dangosydd a pharhau i wneud hynny. Gan hynny, mae'n bwysig amseru'r gwaith terfynu prosiect fel y sicrheir bod modd cipio'r holl ganlyniadau perthnasol a'u darparu mewn pryd ar gyfer cyflwyno'r hawliad terfynol a'r Adroddiad Cynnydd ar yr hawliad terfynol am daliad.

### Gwerthuso

Dylai prosiectau fod wedi amlinellu a chytuno gyda WEFO yn ystod oes y prosiect ar y cynigion ar gyfer gwerthuso. Mae'n rhaid cael gwerthusiad terfynol ac ni fydd y grant sy'n weddill ar gyfer y prosiect yn cael ei ryddhau hyd nes derbynnir y ddogfen hon a hyd nes i dîm Monitro, Ymchwil a Gwerthuso WEFO ei llofnodi. Dylai prosiectau sicrhau eu bod yn gwneud cynlluniau addas i ofalu na fydd unrhyw oedi dianghenraid cyn y telir y swm sy'n weddill. Bydd y swm hwn yn cael ei ryddhau wedi i'r hawliad terfynol gael ei awdurdodi, ar yr amod bod yr holl bartïon yn WEFO yn fodlon a bod pob agwedd ar gyflenwi'r prosiect a'r hyn a gyflawnodd yn foddhaol.

Gan hynny, mae angen i noddwyr ystyried y dyddiad y bydd eu Gwerthusiad Terfynol yn cael ei gyflwyno oherwydd os cyflwynir dogfennau ar ôl dyddiad diwedd y prosiect ni fydd y prosiect yn cau o safbwynt WEFO – gweler uchod. Mae angen i'r noddwr fodloni ei hun ei fod wedi talu costau'r gwerthuswr ac y bydd yn gallu hawlio'r rhain fel rhan o'r hawliad terfynol.

### Adroddiad Terfynol y Prosiect

Fel rhan o'r gwaith terfynu, bydd angen i chi gyflwyno adroddiad terfynol byr ar y prosiect, na ddylai ddyblygu cynnwys adroddiad y Gwerthusiad Terfynol. Ni ddylai fod yn fwy na dwy dudalen a dylid defnyddio'r templed sydd ynghlwm, i'w gyflwyno i WEFO fel rhan o'r broses gau. Dylai roi braslun o'r hyn a gyflawnodd y prosiect yn erbyn ei nodau a'i amcanion – gan gynnwys

buddiannau ehangach ac eglurhad ar unrhyw newid mewn ffocws, eglurhad ar unrhyw amrywiad yn erbyn y targedau, unrhyw wersi a ddysgwyd, unrhyw ddeilliannau eraill megis modelau ar gyfer arfer gorau ac unrhyw allbynnau/canlyniadau ychwanegol na all y Gwerthusiad Terfynol eu cynnwys, e.e. a wnaeth eich prosiect chi unrhyw waith trawswladol?

## 7. Gweithgareddau a Monitro Ar Ôl Terfynu'r Prosiect

Mae'n debygol y bydd rhai gweithgareddau i'w gwneud ar ôl y dyddiad pan ddaw'r prosiect i ben ond bydd WEFO yn cydweithio â chi er mwyn cadw'r rhain mor ychydig ag y bo modd gan y bydd yn golygu cost e.e. cyflogau staff, y bydd yn rhaid i'r noddwr arweiniol a / neu eraill a chwaraeodd ran wrth gyflenwi'r prosiect eu talu.

Pan ddaw'r prosiect i ben, bydd WEFO yn rhoi gwybod i chi os oes unrhyw ofynion o ran monitro wedi i'ch prosiect chi gau a beth yw'r broses ar gyfer cyflwyno gwybodaeth. Fel rheol bydd hyn yn digwydd fel rhan o'r cyfarfod Adolygu Terfynu Prosiect ond mae'n debygol hefyd y bydd wedi cael ei drafod yn y 12 mis cyn y dyddiad y daw'r prosiect i ben. Bydd angen i chi sicrhau bod gan y sefydliad adnoddau a gwybodaeth ddigonol er mwyn helpu gydag unrhyw weithgareddau ar ôl terfynu'r prosiect a bydd angen trefnu mynediad priodol i Wasanaeth Ar-lein WEFO er mwyn cyflwyno'r wybodaeth hon.

Hynny yw, mae angen i chi roi i WEFO, drwy eich Swyddog Datblygu Prosiectau, fanylion am unrhyw unigolion y gellir cysylltu â nhw ac a fydd ar gael i brosesu'r hawliad terfynol a rhoi sylw i unrhyw ymholiadau neu ofynion a wneir gan WEFO ac y mae'n rhaid i'r noddwr weithredu arnynt i sicrhau bod y prosiect yn cael ei gau. Mae'n rhaid i'r Swyddog Awdurdodi barhau i fod ar gael ac mae'n rhaid rhoi gwybod i WEFO am unrhyw newidiadau yng nghontractau'r prosiect, boed y rhain wedi'u cofrestru gyda Gwasanaeth Ar-lein WEFO neu beidio, fel y gallwn gywiro ein systemau.

Dyma rai meysydd y bydd WEFO yn eu monitro fel rhan o'r gwaith terfynu prosiect:

### Prosiectau sy'n creu refeniw

Dylech fod wedi trafod y gofynion ar gyfer eich prosiect gyda'ch Swyddog Datblygu Prosiectau yn barod, os yw'n brosiect sy'n creu refeniw. [Erthygl 55 Rheoliad y Cyngor (CE) Rhif 1083/2006 (y Rheoliad Cyffredinol), dyddiedig 11 Gorffennaf 2006 ac fel y'i diwygiwyd gan Reoliad y Cyngor (CE) Rhif 1341/2008, dyddiedig 18 Rhagfyr 2008 a Rheoliad (UE) Rhif 539/2010, dyddiedig 16 Mehefin 2010]. Cyfrifoldeb y noddwr yw sicrhau ei fod yn gwybod am unrhyw weithredoedd neu ofynion angenrheidiol.

### Parhad y Gwaith

Er mwyn sicrhau y bydd prosiectau a gyd-noddwyd drwy'r Cronfeydd Strwythurol yn gallu parhau, mae'n rhaid cynnal y buddsoddiad yn unol â

rheoliadau'r UE. [Erthygl 57, Rheoliad 1083/2006 ac fel y'i diwygiwyd gan Reoliad (UE) Rhif 539/2010, 16 Mehefin 2010].

Mae'n rhaid i noddwyr prosiectau hysbysu WEFO am unrhyw newid sylweddol i'w prosiect o fewn **5 mlynedd o'r adeg y caiff ei gwblhau neu 3 blynedd o'r adeg y caiff prosiect ei gwblhau ar gyfer cynnal buddsoddiadau neu swyddi sy'n cael eu creu gan BbaCh:-**

- os bydd y newid yn effeithio ar natur y prosiect neu'r amodau ar gyfer ei roi ar waith neu'n rhoi mantais annheg i gwmni neu gorff cyhoeddus ac
- os bydd yn digwydd o ganlyniad i newid yn natur perchnogaeth eitem o seilwaith neu roi'r gorau i waith cynhyrchiol.

Os methir â chynnal y buddsoddiad, bydd y cyfraniad o'r Cronfeydd Strwythurol yn cael ei dynnu'n ôl.

## Archwiliadau Ar Ôl Terfynu, Monitro ac Ymweliadau Eraill

Efallai y bydd eich prosiect yn cael ymweliadau at ddibenion archwilio a monitro unrhyw bryd tan ddiwedd cyfnod cadw'r rhaglen. Bydd WEFO'n rhoi gwybod i'ch sefydliad mewn da bryd fel y gallwch baratoi ac fe ddisgwylir gweld yr holl dystiolaeth am weithgareddau'r prosiect a sut y cafodd ei reoli.

Enw'r Prosiect

Noddwr

Rhaglen a Blaenoriaeth

Rhowch fraslun o'r hyn a gyflawnodd y prosiect yn erbyn ei nodau a'i amcanion, os gwelwch yn dda – gan gynnwys buddiannau ehangach ac eglurhad ar unrhyw newid mewn ffocws.

| |
|---|
| |

Rhowch eglurhad os gwelwch yn dda ar unrhyw amrywiad yn erbyn y targedau.

| |
|---|
| |

Rhowch fanylion os gwelwch yn dda am unrhyw wersi a ddysgwyd, deilliannau eraill megis modelau ar gyfer arfer gorau ac unrhyw allbynnau/canlyniadau ychwanegol na ellir eu cipio drwy fonitro a gwerthuso ffurfiol y prosiect.

| |
|---|
| |

Rhowch fanylion os gwelwch yn dda am unrhyw gysylltiadau trawswladol neu gysylltiadau eraill nad ydynt wedi cael eu nodi fel rhan o werthusiad swyddogol y prosiect.

| |
|---|
| |